Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd :** | Cydlynydd Gweithgareddau Chwaraeon | **Lleoliad :** | Ynys Môn ac Eryri |
| **Adran :** | Chwaraeon | **Cyflog :** | Gweithredol 2: £23,582-£25,506 y flwyddyn |
| **Oriau Gwaith :** | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | **Cytundeb :** | Parhaol |
| **Yn adrodd i :** | Uwch Swyddog Datblygu Chwaraeon | **Rheolaeth Llinell :** | Dim |

**Prif bwrpas y swydd:**

Nod y swydd fydd cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn gweithgaredd chwaraeon cyson, drwy gyfrwng y Gymraeg.

---

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

1. Bydd angen i'r Cydlynydd Chwaraeon trefnu a chynnal sesiynau wythnosol a chlybiau e.e. clybiau ysgol, clybiau tu fewn a thu allan i oriau dysgu yn yr ardaloedd a nodwyd.
2. Creu cynllun o weithgareddau ar gyfer bob gwyliau ysgol ar y cyd gyda staff eraill yr ardal.
3. Bydd angen datblygu sesiynau / clybiau ar benwythnosau i fwrw targedau'r adran, chwaraeon Cymru a llywodraeth Cymru.
4. Cydweithio gyda gwirfoddolwyr, hyfforddwyr a phrentisiaid sydd yn gweithio yng nghlybiau chwaraeon yr adran.
5. Creu posteri a chynnwys marchnata i'r gweithgareddau a'r clybiau wythnosol.
6. Cyfrifol am gofrestrau a data gweithgareddau clybiau wythnosol a hefyd gweithio i dargedau heriol yr adran.
7. Cydweithio â chlybiau lleol sydd eisoes yn bodoli er mwyn annog plant a phobl ifanc i fynychu sesiynau wythnosol. Lle nad oes clybiau addas yn bodoli eisoes, bydd angen trefnu clybiau yn enw'r Urdd.
8. Bydd angen i'r swyddog cydweithio gydag Ysgolion Uwchradd ar y canlynol; denu gwirfoddolwyr a chynnal sesiynau allgyrsiol.
9. Integreiddio Llythrennedd Corfforol fewn i weithgarwch chwaraeon dyddiol.
10. Bydd disgwyl i'r swyddog gyfrannu at lwyddiant gweithgareddau a digwyddiadau chwaraeon lleol a cenedlaethol.

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| **Hanfodol:** | **Dymunol:** |
|---|---|
| 1. Bydd Prentisiaeth, Cymhwyster sylweddol yn y maes chwaraeon yn hanfodol.<br>2. Profiad o drefnu a darparu clybiau cynaliadwy.<br>3. Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc a hyfforddi.<br>4. Sgiliau cyfathrebu da a profiad siarad gyda ystod eang o bobl (Rhieni, plant a.y.b.)<br>5. Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char, neu'r gallu i deithio'n gwbl hyblyg ac annibynnol er mwyn cyflawni'r swydd hon.<br>6. Bydd hi'n angenrheidiol gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg er mwyn cyflawni'r swydd hon.<br>7. Bod yn barod i weithio oriau hyblyg gan gynnwys gyda'r nos a benwythnosau. | 1. Dealltwriaeth o nod ac amcanion Urdd Gobaith Cymru. |

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad :** Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:** Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad:** Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Gorffennaf 2024 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes

**Gwiriadau Perthnasol:**

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)